

**RDP Economaidd Gymdeithasol 2014 - 2020 -
Prosiectau a Gymeradwywyd fel ar 06/03/2020**

Cynllun	Enw'r Prosiect	Ymgeisydd	Swm RDP a gymeradwywyd £	Disgrifiad o'r Prosiect
RBIS Bwyd	Estyniad i Ffatri Caenau Melysion	Thew Arnott & Co Ltd	£22,163.90	Estyniad in Ffatri Caenau Melysion AraTAs i fodloni galw cynyddol a NPD gan, ac ar gyfer marchnadoedd y DU a rhyngwladol.
RBIS Bwyd	Prynu Llinell Cynhyrchu Pwdinau Arbenigol	Daffodil Foods	£50,000.00	Y prosiect yw prynu llinell bwrpasol a fydd yn cynhyrchu pwdinau seiliedig ar gynnyrch llaeth. Bydd yn gallu: gosod haenau o gompot, cymysgeddau llaeth, sgleiniau ac addurniadau o feintiau a siapiau amrywiol o botiau arbennig a'u pwysu i sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl a datgelu metel ynddynt, sy'n ofyniad diogelwch bwyd.
RBIS Bwyd	Prynu cyfarpar ychwanegol ar gyfer ehangu'r busnes	Terrys Patisserie	£50,000.00	<ul style="list-style-type: none"> • Prynu a gosod cyfarpar cynhyrchu cyfalaf i alluogi cynhyrchu mwy o Patisserie ac effeithlonrwydd. • Hwyluso a sefydlu twf cynaliadwy o "gyflenwr lleol" i Gyflenwr Patisserie Cenedlaethol drwy gynyddu trosiant ar gyfer cynyddu'r hyn a gynhyrchir yn gyflymach ac yn fwy cyson gyda mwy o hyblygrwydd ar gyfer galw cynyddol a detholiad mwy o gynhyrchion. • Cynhyrchu llai o wastraff a gwell diogelwch bwyd a gwell dulliau archwilio o ran y gadwyn gyflenwi, cynnal achrediad bwyd tra'n parhau i sefydlu cynnyrch wedi'i wneud â llaw sy'n gysylltiedig â Terrys Patisserie Company.

RBIS Bwyd	Prynu peiriant rhostio coffi	Heartland Coffi	£50,000.00	Prynu peiriant Rhostio Coffi 45kg; bydd y peiriant 45kg ychwanegol yn rhoi'r gallu i rostio ffa Cymysg ac Un Tarddle, gan ehangu'r gallu rhostio i fodloni'r galw cynyddol a datblygu cynhyrchion newydd pellach a mentrau cydweithredol.
RBIS Bwyd	Prynu cyfarpar ychwanegol ar gyfer ehangu busnes Hufen Ia	Contis (Ice Cream)	£22,931.60	Cynyddu gallu gweithgynhyrchu a storio ar gyfer cynhyrchu masnachol Contis Ice Cream.
RBIS Food	Symud y gwaith gweithgynhyrchu cig i'r fferm.	The Bakers Pig	£17,774.40	Symud ochr gweithgynhyrchu cig y busnes i'r fferm, ac agor tŷ mygu er mwyn ein galluogi i ehangu ein detholiad o gynhyrchion, ac o ganlyniad byddwn yn gallu archwilio marchnadoedd newydd.
RBIS Bwyd	2018 - Prosiect ehangu	Wild Horse Brewing Company	£44,012.00	Buddsoddi mewn dau danc gwirod mwy o ran maint a mwy effeithlon. Bydd y gallu cynyddol yn golygu y bydd angen i'r cwmni gyflogi mwy o staff i fodloni'r galw cynyddol am ei gwrw arbennig yng Nghymru a gweddill y DU.
RBIS Bwyd	Brecon Chocolates, is-adran o Charlotte Roskill Catering Limited	Charlotte Roskill Catering Ltd	£7,375.36	Bydd Brecon Chocolates yn gweithgynhyrchu ar y safle, eu siocledi arbennig eu hunain â chynllun unigryw a siocledi a gynhyrchir â llaw yn defnyddio cynhwysion a chyflenwyr lleol

RBIS Bwyd	Cegin brosesu ar y safle	Candida Meryrick - Positive Potions	£20,000.00	Mae Positive Potions Ltd wedi creu cysyniad newydd yn y diwydiant diodydd ysgafn. Datblygu cynnyrch newydd o gynhyrchion heb siwgr/ melysyddion/ ychwanegion artiffisial.
RBIS Bwyd	Sefydlu Uned Gynhyrchu o Safon Bwyd	Farmers Food at Home	£26,304.70	Bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sefydlu cyfleuster cynhyrchu o safon bwyd. Bydd yr uned weithgynhyrchu yn un o'r adeiladau presennol ar y fferm deuluol. Bydd yn uned gynhyrchu o safon bwyd. Hefyd, bydd y cyfleuster newydd yn galluogi Farmers Food at Home i gael ei achredu gan SALSA sy'n golygu y byddant yn gallu cynhyrchu a gwerthu nwyddau i gyflenwyr mawr.
RBIS Bwyd	Ehangu'r busnes	From our Farm Ltd	£4,374.00	Buddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar prosesu ychwanegol er mwyn cynyddu cynhyrchiant i fodloni'r galw cynyddol am ein cynhyrchion 'biltong'.
RBIS Bwyd	Ehangu'r busnes	Great Orme Brewery Ltd	£25,563.18	Bydd y buddsoddiad mewn cyfleuster potelu newydd a fydd yn cynyddu gallu cynhyrchu poteli o 105 câs y dydd i 460. Bydd y cynnydd mewn capasiti'n galluogi'r bragdy i gynyddu ei safle yn y farchnad bresennol a gwella effeithlonrwydd gam ei alluogi i fentro i farchnadoedd newydd. Bydd y prosiect yn gwella ansawdd a hylendid bwyd gan alluogi'r busnes i gyflawni safonau hylendid bwyd SALSA. Heb SALSA bydd y busnes yn ei chael hi'n anodd cadw cwsmeriaid presennol ac ennill rhai newydd. Bydd y prosiect, law yn llaw â chyfleuster trin dŵr newydd yn galluogi'r busnes i ddal ati i ddatblygu fel hyrwyddwr amgylcheddol yn yr ardal.

RBIS Bwyd	Patchwork k Food Ltd	Patchwork Traditional Foods	£50,000.00	Mae rhan fwyaf y farchnad gwneud pate yn mynd drwy'r sectorau manwerthu a gwasanaeth bwyd sydd, yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, wedi dod yn ymwybodol o'r angen am reoleiddio gwell a safonau bwyd uwch. Dyna pam eu bod i gyd wedi tanysgrifio i Safonau Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC). Bydd cwmni heb yr achrediadau hyn yn ei chael yn amhosibl bron iawn i'w cyflenwi. I gyrraedd y safonau gofynnol gan BRC bydd angen buddsoddiad sylweddol yn y ffatri ynghyd â chyfarpar newydd fel datgelyddion metel, poptai, beltiau llinell, dangosyddion tarddiad, argraffwyr dyddiad gwerthu cyn a gwybodaeth lawn am faeth ar y pecynnau amrywiol.
RBIS Bwyd	Busnes newydd	Twirly Bakes	£5,144.12	Buddsoddi i ddechrau cynhyrchu, i feithrin masnach gydag economïau lleol a chynnig cyflogaeth. Bydd y buddsoddiad yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Prynu cyfarpar cynhyrchu • Cael pob tystysgrif a chymhwyster priodol ar gyfer y busnes.
RBIS Bwyd	Ffitiadau uned gynhyrchu newydd	Gower Cottage Brownies Ltd	£49,594.00	Trosi adeilad yn gyfleuster cynhyrchu a storio bwyd. Mae ein cynlluniau yn cynnwys: gosod cladin walïau hylan yn yr adeilad, nenfwd ffug a llawr wedi'i selio i greu man cynhyrchu gyda gwyntyll echdynnu, gwres a chyfarpar cynhyrchu ynghyd â chyfleusterau swyddfa ar wahân. Gan fod yr adeilad hwn yn cael ei gyflenwi gyda phŵer tair gwedd, byddem angen cyfarpar cynhyrchu newydd a meincïau gwaith dur gwrthstaen newydd ar gyfer mannau torri a pheccynnu.

RBIS Bwyd	Ehangu busnes	Pennant Valley Game	£2,419.58	Buddsoddi mewn cyfarpar cynhyrchu newydd i gynyddu allbwn cynhyrchu. Bydd y prosiect yn cael ei redeg law yn llaw â dulliau gwerthoedd a dulliau chynhyrchu cynaliadwy yn unol ag adolygiadau cynaliadwyedd. Bydd y prosiect hwn yn helpu Pennant Valley Gam i ddal ati i arloesi, drwy greu bwydydd amrywiol sy'n unigryw i PVG, gan ein helpu i fod ar flaen y gad yn niwydiant dofednod Cymru.
RBIS Bwyd	Dwyfor Roastery	Dwyfor Coffee Company Ltd	£10,392.00	Prosiect i osod rhostiwr yn un o'n hunedau a fydd yn ein galluogi i rostio ffa coffi ar y safle. Ar yr un pryd rydym yn archwilio ffyrdd o ddilyn arferion pecynnu a chompostio amgylcheddol gyfeillgar newydd lle'n bosibl hefyd. Eleni, rydym wedi cyflwyno cwpanau untro y gellir eu compostio sy'n llawer gwell i'r amgylchedd gan nad ydynt yn cynnwys plastig. Rydym wedi ymrwymo i'r gwerthoedd craidd hyn a drwy rostio ein ffa ar y safle, byddwn yn lleihau'r milltiroedd bwyd yn syth a bydd hynny'n arwain at leihau ein hól troed carbon.
RBIS Bwyd	Cyfarpar llenwi a chapio newydd	Tovali Ltd	£49,934.00	Mae angen y gwariant hwn er mwyn gwella effeithlonrwydd yn y cwmni a chynyddu lefelau cynhyrchiant. Bydd cyflwyno'r peiriannau hyn yn galluogi'r cwmni i ddal ati i drafod yn hyderus gyda darpar brynwyr cenedlaethol mawr gan wybod y byddent yn gallu bodloni'r amserlenni gofynnol ar gyfer darparu eu cynhyrchion.

RBIS Bwyd	Coaltown Ltd	Coaltown Coffee	£12,820.00	Yn sgil galw cynyddol, mae Coaltown wedi buddsoddi ac wedi adleoli i safle mwy yn nhref Rhydaman. Yn sgil cynnydd mewn galw a gwasanaethau roedd angen symud i eiddo mwy. Mae'r prosiect yn cynnwys prynu rhostiwr newydd er mwyn cynyddu cynhyrchiant. Bydd y rhostiwr newydd yn galluogi'r adran gynhyrchu i gynhyrchu chwe gwaith cymaint na'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.
RBIS Bwyd	Sabor de Amor - Prynu peirianna u	Sabor De Amor	£16,426.79	Yn ddiweddar, mae'r busnes wedi symud i uned 800 metr sgwâr newydd nad yw wedi'i 'raddio ar gyfer bwyd'. Mae angen ei uwchraddio ar gyfer cynyddu capasiti cynhyrchu. Bydd y prosiect yn eu galluogi i brynu'r cyfarpar a'r peiriannau angenrheidiol, gyda chynllun i sicrhau achrediad SALSA o fewn y misoedd nesaf.
RBIS Bwyd	Datblygu seidr ffrwythau	Gwynt Y Ddraig	£47,329.04	Mae Gwynt y Ddraig Ltd yn bwriadu datblygu a chynhyrchu: i. Detholiad o seidrau ffrwythau ii. Seidrau un amrywiad ychwanegol ar gyfer ei gwsmeriaid presennol. Bydd angen i'r cwmni fuddsoddi mewn tanciau storio dur gwrthstaen ychwanegol a chyfarpar ychwanegol i'w alluogi i gymysgu'r gwahanol amrywiaethau a storio seidrau ac eplesiadau ychwanegol dros gyfnod hirach. Mae'r cwmni wedi derbyn ceisiadau gan nifer sylweddol o gwsmeriaid sy'n chwilio am seidrau ffrwythau i ychwanegu at y dewis o seidrau a gynigir ac mae wedi cynnal ymchwil i farchnadoedd y dyfodol.

RBIS Bwyd	Uwchraddio prosiect	Anglesey Ales	£50,000.00	Uwchraddio o Fragdy nano i fragdy micro i fod yn fasnachol. Symud i safle mwy a gosod pecyn bragu lager i gynyddu cynhyrchiant a sicrhau cymaint o arbedion maint â phosibl a gwneud elw.
RBIS Bwyd	Ychwanegu gwerth at ffrwythau meddal dros ben	Brooksgrove Farm	£21,229.00	Mae Gary E Rees wedi gweithio gyda WRAP Cymru i ymchwilio i opsiynau i ddatblygu cynhyrchion gwerth ychwanegol o ffrwythau dros ben Brooksgrove ac wedi datblygu cyfle o'r opsiwn â'r potensial masnachol mwyaf. Prosesu suropau a suddion ffrwythau, datblygu cynhyrchion sy'n barod i'r farchnad. Mae'r prosiect eisoes wedi sicrhau contractau ar gyfer archebion am y suropau potel. Bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn cyfleuster prosesu pwrpasol ynghyd â chyfarpar prosesu ar Fferm Brooksgrove.
RBIS Bwyd	MilaCel Development	Pennotec	£34,969.87	Diben y prosiect hwn yw darparu cyfarpar a chyfleusterau o safon bwyd yn Pennotec fel rhan o'r broses o ehangu i gyfleusterau gweithgynhyrchu newydd. Bydd y grant hwn yn galluogi datblygiad technoleg ffibr afalau newydd yn fewnol er mwyn gweithgynhyrchu ffibrau afalau ar raddfa cynhyrchu. Drwy gydweithio blaenorol â phartneriaid Prifysgol Bangor, CyberColloids Cyf, y Ganolfan Technoleg Bwyd, Coleg Menai a gweithgynhyrchwyr bwyd yng Nghymru yn y gadwyn gyflenwi ysgolion, mae Pennotec (Pennog Ltd) wedi dangos galw sylweddol am fwydydd iachach drwy ddisodli braster a siwgrau gweadeddol gyda ffibr afal deietegol.

RBIS Bwyd	Cwmfarm Charcuterie Products - Prosiect dargyfeirio	Cwm Farm Charcuterie	£37,560.20	<p>Gŵr a gwraig yw tîm Cwmfarm Charcuterie Products (CCP) sy'n arbenigo mewn gwneud salami a sychu cigoedd o safon ar eu fferm.</p> <p>Bydd y prosiect yn galluogi'r busnes i symud i uned fwy ar stad ddiwydiannol lle mae'r busnes wedi'i leoli ar hyn o bryd, a byddai hyn yn dyblu capasiti presennol y busnes. Bydd y cyfle hwn yn galluogi CCP i greu lle ar gyfer cyfleuster sychu aer newydd a gwahanol, a pheiriannau arbennig y gellir eu defnyddio i wneud cynhyrchion newydd. Bydd prosesau newydd yn galluogi CCP i weithredu system amgylcheddol gynaliadwy yn llawn.</p> <p>Bydd y buddsoddiad arfaethedig yn eu galluogi i brynu cyfarpar newydd ar gyfer ehangu'r busnes presennol, a chreu cynnyrch cyffrous newydd ac ehangu eu detholiad presennol o gynhyrchion.</p>
RBIS Bwyd	Ehangu The Blaenavon Cheddar Cheese Co	Blaenavon Cheese	£2,694.20	<p>Bydd y prosiect yn ein galluogi i ehangu i'r safle drws nesaf a chynyddu ein cynhyrchiant a fydd yn ein galluogi i gyflenwi'r galw am ein cynhyrchion.</p> <p>Datblygu i safle ychwanegol a fydd yn buddsoddi mewn peiriant caenu cwyr newydd i gynyddu'r cynhyrchiant o 23,000 uned i 96,000 uned a buddsoddi mewn ail beiriant oeri y gellir cerdded i mewn iddo er mwyn gallu storio'r stoc ychwanegol y byddwn yn ei gynhyrchu.</p>
RBIS Bwyd	Prosiect buddsodd i cyfalaf TP 2019	Terrys Patisserie	£50,000.00	<p>Buddsoddiad arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I drosi ac ehangu gweithgynhyrchu, ardal brosesu - coginio a gorffen o'r ardal bresennol 800 troedfedd sgwâr i oddeutu 3800 troedfedd sgwâr. • Darparu man ar wahân ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn, mwy o le storio nwyddau sych a nwyddau pantri, adleoli'r rhewgell i'r parth gweithgynhyrchu. Cynyddu capasiti oeri gwaith sydd ar y gweill, gofod storio cyfarpar nwyddau traul a chyfarpar cegin. • Darparu cyfleusterau newid a ffreutur yn y parth gweithgynhyrchu. • Darparu parth ar wahân ar gyfer nwyddau sy'n gadael a gwirio nwyddau a chanopi llwytho wedi'i ddiogelu.

RBIS Bwyd	Ehangu'r busnes	Harbwr Tenby Harbour Brewery	£30,458.29	<p>Buddsoddi cyfalaf mewn cyfleuster bragu a storio newydd ar safle ger y cyfleuster presennol. Bydd hyn yn troi'r busnes o fragdy tri chynhwysydd i fragdy pum cynhwysydd a galluogi twf o tua 65% yn fwy na'r perfformiad presennol.</p> <p>Mae'r datblygiad cyfalaf hwn yn cynnwys adnewyddu tu mewn i adeilad sy'n bodoli eisoes gerllaw safle presennol Harbwr Brewery a phrynu cyfarpar.</p> <p>Gyda'r datblygiad newydd yn ei le, bydd y busnes yn gallu parhau i ddatblygu'r busnes drwy sianeli presennol a gyda'r detholiad presennol o gynhyrchion (blasau a'r math o becynnau) a hefyd ymchwilio i farchnadoedd newydd fel allforio a chyflenwi sefydliadau mawr fel Coors a rhai lluosog.</p>
RBIS Food	Ffynnon Wen Springs	Ffynnonwen Springs Ltd	£47,440.00	<p>Cynhyrchu Dŵr Ffynnon Arbennig o ansawdd uchel yn defnyddio datblygiadau technolegol uwch mewn cyfarpar ac arloesi mewn datrysiadau pecynnu Bag mewn Bocs y gellir eu hailgylchu'n llwyr. Y cyfarpar fydd ei angen i roi'r dŵr yn y bag yn hylan fydd tanc dal dur gwrthstaen 1000Litr ac offer llenwi Bag mewn Bocs cwbl awtomatig â phen unigol AW1X Flexifill, yna drwy gludydd i'r Bocs i'w selio'n barod i'w ddsbarthu.</p> <p>Mae'r system yn opsiwn amgen arloesol i boteli plastig PVC a PET, mae'n cynnig ateb i leihau llygredd poteli plastig.</p> <p>Mae'r bocs wedi'i wneud o ddeunyddiau bioddiraddadwy 100%.</p>